

Argraff artist

Pembroke Port

Rhan o Borthladd Aberdaugleddau

# CARTREF I'CH BUSNES

## Wrth y fynedfa i'r Môr Celtaidd

**Swyddfeydd a gweithdai newydd i'w gosod yn Noc Penfro**

**Mae cytundebau cyn-osod yn cael eu gwneud nawr ar gyfer dechrau 2023**

**I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Sharon Adams ar**
Ffôn: +44(0)1646 696631   E-bost: sharon.adams@mhpa.co.uk   www.pembrokeport.com

Porthladd Aberdaugleddau

Bargen Ddinesig Bae Abertawe
Swansea Bay City Deal

HWB MOROL DOC PENFRO
PEMBROKE DOCK MARINE

Mae datblygiad Adeiladau'r Hangar yn rhan o brosiect Morol Doc Penfro yn cael ei gefnogi gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

# Cyfle i chi fod yn rhan o ddatblygiad newydd sbon mewn cyfleuster peirianneg o safon fyd-eang

Mae gan **Ddoc Penfro** gysylltiad hir ag adeiladu a saernïo morol ar raddfa fawr, o'i sefydlu fel Iard Doc y Llynges Frenhinol i adeiladu llongau'r llynges yn 1814, mae wedi datblygu i fod yn iard doc brysur gyda busnesau cadwyn gyflenwi soffistigedig a gweithlu medrus iawn. Mae Hangars Sunderland wedi bod yn rhan o'n tirwedd hanesyddol ers blynyddoedd lawer, fel cartref i'r Cychod Hedegog a amddiffynnodd ein glannau yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac fel rhan o gyfrinach fawr Doc Penfro pan adeiladwyd llong ofod enwog yma yn y 1970au.

Wrth i ni ddechrau ar bennod newydd yn hanes morol Doc Penfro, mae'r adeiladau cysylltiedig ym Mhorth Penfro am gael eu hadnewyddu i ddarparu swyddfeydd a gweithdai newydd sbon. Mae hwn yn ddatblygiad sy'n cael ei arwain gan Borthladd Aberdaugleddau, fel rhan o brosiect Morol Doc Penfro sy'n cael ei gefnogi gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Bydd y prosiect hwn yn creu canolfan o'r radd flaenaf ar gyfer ynni a pheirianneg forol yn agos at y Môr Celtaidd. Yn ogystal â swyddfeydd a gweithdai newydd, rydyn ni'n gweithio i gefnogi diwydiannau gwyrdd ymhellach, gyda mannau saernïo a gosod, llithrfa estynedig a pharth angori newydd.

Bydd **Pembroke Dock Marine** yn darparu'r cyfleusterau, y gwasanaethau a'r mannau sydd eu hangen i sefydlu canolfan o'r radd flaenaf ar gyfer peirianneg forol. Bydd yn berthnasol ar gyfer y diwydiant cyfan, ond bydd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar y sector ynni carbon isel.

Mae'r datblygiad hwn, sy'n werth £60m ac sy'n cael ei gefnogi gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

**Dyma'r pedair elfen:**

### Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (MEECE)

**Yn cael ei gyflawni gan:** ORE Catapult
**Pwrpas:** Rhoi cymorth o ran ymchwil, datblygu ac arddangos, ysgogi arloesedd yn y gadwyn gyflenwi a lleihau costau ynni.

### Datblygiadau Porthladd Penfro

**Yn cael ei gyflawni gan:** Porthladd Aberdaugleddau
**Pwrpas:** Creu mannau sy'n helpu'r diwydiant i saernïo, lansio a chynnal dyfeisiau.

### Ardal Profi Ynni Morol (META)

**Yn cael ei gyflawni gan:** Ynni Môr Cymru
**Pwrpas:** Helpu gyda phrofi cydrannau, is-osodiadau a dyfeisiau mewn ardaloedd profi sydd wedi cael caniatâd ymlaen llaw er mwyn lleihau'r amser, y gost a'r risgiau cysylltiedig a chyflymu twf yn y sector.

### Parth Arddangos Sir Benfro (PDZ)

**Yn cael ei gyflawni gan:** Celtic Sea Power
**Pwrpas:** Galluogi seilwaith adnewyddadwy ar y môr i gatalyddu cyfleoedd gwynt ar y môr ac ynni'r môr yn y Môr Celtaidd.











# Rydyn ni'n edrych ymlaen at gymryd rhan ym mhrosiect Morol Doc Penfro, ac rydyn ni'n rhagweld y bydd yn arwain at fanteision, gan gynnwys:

- Dros 1,800 o swyddi gyda chyfleoedd ar gyfer gweithlu heddiw ac ar gyfer y genhedlaeth nesaf
- Y potensial i wneud newid cadarnhaol i reoli'r newid yn yr hinsawdd, gyda chyfraniad o 1,000MW at dargedau datgarboneiddio Cymru a'r DU
- Cyfraniad blynyddol o £73.5m i'r economi ranbarthol
- Mwy o gadernid yn y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd i ehangu
- Mwy o arloesi, cydweithio ac ymchwil diwydiannol
- Cyfleoedd ar draws nifer o ddiwydiannau morol, gan ganolbwyntio'n uniongyrchol ar y cyfleoedd mewn ynni morol

## Gan y byddwch chi wedi eich lleoli ym Mhorth Penfro, bydd gan eich busnes fynediad at y canlynol:

- Cadwyn gyflenwi leol brofiadol ar y safle
- Gweithlu medrus lleol gyda sgiliau trosglwyddadwy o'r diwydiannau ynni
- Sylfaen gynyddol o gwmnïau'n datblygu ac yn profi dyfeisiau ac yn rheoli prosiectau datblygu yn y diwydiannau Gwynt ar y Môr, Ynni Adnewyddadwy a Lleihau Carbon
- Mynediad ar ochr y Cei
- Mannau storio a gosod mewnol ac allanol
- Cysylltiadau trafnidiaeth da ar y ffordd ac ar y môr, gan gynnwys gwasanaeth Irish Ferries ar y safle ddwywaith y dydd i Iwerddon
- Cymuned fusnes gefnogol a chydweithredol
- Rheolwr Masnachol penodol i weithio gyda chi wrth i'ch busnes ddatblygu
- Arbenigedd tîm Porthladd Aberdaugleddau ar gael i gynnig arweiniad

**Bydd y swyddfeydd a'r gweithdai newydd hyn ar gael cyn bo hir. Rydyn ni nawr yn croesawu ymholiadau ar gyfer y swyddfeydd a'r gweithdai newydd hyn a fydd wedi'u cwblhau erbyn dechrau 2023.**

**Mae Porthladd Penfro hefyd yn gartref i amrywiaeth o adeiladau masnachol, felly gallwn ni weithio gyda chi ar ateb sy'n addas i'ch anghenion chi yn ystod y cyfnod cyffrous hwn o ddatblygu.**

## Cysylltu â ni


**Cysylltwch â Sharon Adams, Rheolwr Masnachol Porth Penfro i gael rhagor o fanylion:**

**Ffôn: +44(0)1646 696631**
**E-bost: sharon.adams@mhpa.co.uk**


Porthladd Aberdaugleddau

Bargen Ddinesig Bae Abertawe / Swansea Bay City Deal

HWB MOROL Doc Penfro / Pembroke Dock MARINE



Mae datblygiad Adeiladau'r Hangar yn rhan o brosiect Morol Doc Penfro yn cael ei gefnogi gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**





## Bydd y datblygiad newydd cyffrous hwn yn ysgrifennu'r bennod nesaf yn hanes Doc Penfro

Ar ôl ymgysylltu â'r gymuned, mae gan bob un o'r adeiladau sydd newydd gael eu datblygu enw sydd â chysylltiad arbennig â hanes hynod ddiddorol Doc Penfro.




### TŶ **CATALINA**

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yr awyrennau mwyaf poblogaidd oedd y PBY Catalina a adeiladwyd yn America, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y 1930au. Doedd dim angen rhedfa ar y cwch hedegog a chwaraeodd ran bwysig yn ystod Brwydr yr Iwerydd, gyda'r Catalinas yn hedfan o Ddoc Penfro gyda'r Awyrlu Brenhinol, yn ogystal â Llynges yr Unol Daleithiau.



### TŶ **EREBUS**


Adeiladwyd HMS Erebus yn Noc Penfro, sef yr unig Iard Doc Frenhinol yng Nghymru ar y pryd. Cafodd HMS Erebus ei lansio yn 1826 ac aeth ymlaen i gymryd rhan yn nhaith goll John Franklin dan arweiniad James Clark Ross i'r Antarctig yn y 1840au, ynghyd â HMS Terror. Roedd y daith yn un o ddirgelion mwyaf y byd gyda'r llongau a'r criw'n diflannu nes y bu datblygiad ym mis Medi 2014, pan ddaethpwyd o hyd i longddrylliad HMS Erebus i'r dwyrain o Gwlff y Frenhines Maud, Canada.



### TŶ **FALCON**

Roedd y cyntaf o ddau HMS Falcon a adeiladwyd yn Noc Penfro yn ystod y 1810au ac a lansiwyd ym mis Mehefin 1820, yn llong ryfel Dosbarth Cherokee ar gyfer y Llynges Frenhinol. Roedd yr ail HMS Falcon i gael ei hadeiladu yn Iard Doc Penfro yn gwch Sloop Sgriw Bren, a chafodd ei lansio ym mis Awst 1854 i wasanaethu yn ystod Rhyfel y Crimea ym Môr y Baltig, gan hefyd gymryd rhan yn y gwarchae oddi ar arfordir Courlan.

Yna ymlaen i 1979 gyda phrosiect hynod gyfrinachol (er fod pawb yn Noc Penfro yn ymwybodol ohono ar y pryd), pan gafodd llong ofod enwog ei hadeiladu yn yr Hangar Gorllewinol.



### TŶ **OLEANDER**

Y llong olaf i gael ei hadeiladu yn Iard y Llynges Frenhinol yn Noc Penfro oedd y tancer RFA Oleander, a oedd yn ddim ond un o chwe llong yn ei dosbarth.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar yr Oleander ym mis Rhagfyr 1920 a chafodd ei lansio ym mis Ebrill 1922. Cyfarfu RFA Oleander â'i ffawd ym mis Mai 1940 pan gafodd y llong ei difrodi'n ddifrifol yn ystod ymosodiad awyrol yn Norwy.



# TŶ CATALINA

**Adeilad deulawr newydd sbon wrth ymyl yr Hangar Sunderland Gorllewinol, gyda swyddfeydd a gweithdai ysgafn, gan gynnwys ystafell gynadledda ganolog, llefydd parcio ac yn agos at yr ardaloedd gosod, a'r mynedfeydd ar ochr y cei a llithrffyrdd.**

Mae'r eiddo hwn yn 760m$^2$ dros ddau lawr, ac ar gael i'w osod yn gyflawn neu mae'n bosib isrannu. Mae gofod y swyddfeydd yn amrywio o 37.8m$^2$ i 85m$^2$, ynghyd â dau weithdy sy'n mesur 118m$^2$ a 120m$^2$, yn ogystal ag ystafell gynadledda ganolog sy'n mesur 32m$^2$.









**CYNLLUN Y LLAWR GWAELOD** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)



**CYNLLUN Y LLAWR CYNTAF** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)



# TŶ EREBUS

**Adeilad llawr gwaelod wedi'i adnewyddu i'r gogledd o'r Hangar Gorllewinol, gyda gofod swyddfa, mynediad ramp a llefydd parcio.**

Mae cyfanswm y mesuriadau ar gyfer y gofod sydd ar gael yn 169m$^2$, gyda gofodau swyddfa yn amrywio o 23m$^2$ i 38m$^2$.





**CYNLLUN Y LLAWR** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)



# TŶ FALCON

**Adeilad llawr gwaelod wedi'i adnewyddu i'r gorllewin o'r Hangar Gorllewinol, gyda gofod swyddfa, mynediad ramp a llefydd parcio.**

Mae cyfanswm y mesuriadau ar gyfer y gofod sydd ar gael yn 181m$^2$, gyda gofodau swyddfa yn amrywio o 22m$^2$ i 51m$^2$.





**CYNLLUN Y LLAWR** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)




# TŶ OLEANDER

**Adeilad deulawr wrth ymyl yr Hangar Dwyreiniol, gyda swyddfeydd ar y ddau lawr.**

Mae cyfanswm maint yr adeilad yn 654m², gyda gofodau swyddfa unigol yn amrywio o 20m² i 56.7m².








**CYNLLUN Y LLAWR GWAELOD** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)




**CYNLLUN Y LLAWR CYNTAF** (DDIM YN UNOL Â GRADDFA)

# Mewn safle da ac wedi'i gysylltu'n dda

**Wedi'i leoli ym Mhorthladd Aberdaugleddau, mae Porthladd Penfro** yn cynnig cyfleusterau iard doc ym mhorthladd ynni mwyaf y DU. Mae'r lleoliad yn cynnwys mynediad ar ochr y cei, mannau gosod, swyddfeydd a gweithdai, a mynediad at dîm profiadol a chadwyn gyflenwi sefydledig ar y safle.




Roedd yr wybodaeth i gyd yn gywir wrth fynd i'r wasg

Dylunio Graffig: lisadevonald.co.uk

**Mae cytundebau cyn-osod yn cael eu gwneud nawr ar gyfer dechrau 2023**


**I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Sharon Adams ar**
Ffôn: +44(0)1646 696631 E-bost: sharon.adams@mhpa.co.uk www.pembrokeport.com


Porthladd Aberdaugleddau

Bargen Ddinesig Bae Abertawe Swansea Bay City Deal

HWB MOROL DOC PENFRO PEMBROKE DOCK MARINE


Mae datblygiad Adeiladau'r Hangar yn rhan o brosiect Morol Doc Penfro yn cael ei gefnogi gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**